# RHAGLEN GRAIDD CYSWLLT YSGOLION CYMRU GYFAN

## Trosolwg y Wers: Na yw Na!

| | | |
|---|---|---|
| **LLINYN:** | Diogelwch | Hyd Gwers:<br><br>Amrywio hyd at 60 munud, drwy gytundeb â'r staff. |
| **CYFNOD ALLWEDDOL:** | CA4 | |
| **GWERS:** | Na yw Na! | |

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc wedi eu hamddiffyn rhag ecsploetio rhywiol. Mae pob plentyn a pherson ifanc o bosibl mewn perygl o ddioddef ecsploetio rhywiol. Mae gan ysgolion rôl ganolog i'w chwarae mewn lleihau'r perygl hwn. Drwy archwilio nodweddion perthynas ddiogel ac iach gall swyddogion helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i adnabod risgiau posibl, aros yn ddiogel a cheisio cymorth os oes ei angen.

Dylai'r wers cydsyniad rhywiol gael ei chyflwyno fel rhan o raglen ABCh a rhaglen addysg rhyw a chydberthynas (SRE) yr ysgol. Dylai fod yn gyson â pholisi addysg rhyw yr ysgol a'r fframwaith gwerthoedd a gytunwyd ar gyfer SRE. Trafodwch â'r athro/athrawes fod y wers yn briodol ar gyfer anghenion dysgwyr o ran eu hoedran, aeddfedrwydd, yr iaith/delweddau a ddefnyddir a'r ddealltwriaeth sydd ei hangen. Hefyd, mae'r wers hon dim ond i'w chyflwyno os oes athro/athrawes yn bresennol yn yr ystafell ddosbarth drwy'r amser.

Mae cyngor pellach ynglŷn ag addysgu materion sensitif ar gael ar y wefan ABCh drwy ddilyn y ddolen i 'addysgu am faterion sensitif' yn

http://wales.gov.uk/psesub/home/holisticpse/delivery/teachingsensitiveissues/?skip=1&lang=cy

### NOD

- Deall a chydnabod pwysigrwydd cydsyniad rhywiol

### AMCANION FFRAMWAITH ABCh

- Sut i wneud a chynnal cyfeillgarwch ac ymdrin yn effeithiol ag ymddygiad mewn perthynas S(WWO)
- Bod yn bendant a gwrthsefyll dylanwad digroeso gan gyfoedion ac eraill S(WWO)
- Derbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach R(H&E)
- Datblygu agwedd gyfrifol tuag at berthynas bersonol R(H&E)
- Deall pwysigrwydd iechyd rhyw a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgaredd rhywiol, yn cynnwys ecsploetio rhywiol posibl R(H&E)
- Sut i gael cyngor iechyd proffesiynol a chefnogaeth bersonol yn hyderus R(H&E)

### AMCANION Y WERS

- Deall beth a olygir gan gydsyniad
- Archwilio'r syniad o gydsyniad rhywiol

- Deall canlyniadau o beidio â pharchu cydsyniad rhywiol
- Nodi ffynonellau cyngor a chefnogaeth

## GEIRIAU ALLWEDDOL

cydsyniad, trais rhywiol, cydsyniol, gorfodaeth,

## ADNODDAU

- Geiriau allweddol
- Cerdyn diffiniad
- Na yw Na! Ppt
- Cardiau scenario
- Cerdyn y gyfraith disgyblion
- Cerdyn y gyfraith swyddog
- Clip DVD 'Fyddech chi'n gallu gweld trais rhywiol?

## GWEITHGAREDDAU

## CYNNWYS

Dylid cyflwyno'r wers hon dim ond os oes athro/athrawes yn bresennol

- Sicrhau bod y cysylltiad â gwers flaenorol y SHCY wedi ei egluro
- Amlinellu'n glir gytundeb yr ystafell ddosbarth
- Cytuno ar y rheolau sylfaenol

## PRIF WEITHGAREDDAU

- Cytuno ar ystyr y term cydsyniad
- Arddangos ac egluro nodau, amcanion dysgu a geiriau allweddol
- Diffinio'r term cydsyniad rhywiol
- Gwaith grŵp gyda'r cardiau senario
- Cardiau'r gyfraith a thrafodaeth am y gyfraith mewn perthynas â'r scenarios

## ADOLYGU

- Asesu dealltwriaeth o'r amcanion drwy holi

## GWEITHGAREDDAU DILYNOL AR GYFER ATHRAWON

Am ragor o wybodaeth ac adnoddau manwl gweler adran athrawon gwefan www.schoolbeat.org



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government